Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |
| **SWYDD:** | Dirprwy Reolwr Tîm Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR13 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Tîm Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |

**DIBEN Y SWYDD:**

Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i reoli a chydlynu'r gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal, sy'n darparu cymorth dwys, sy'n ystyriol o drawma i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn perygl o fynd i'r system ofal.
Mae'r swydd hon yn canolbwyntio'n benodol ar elfen Camfanteisio a'r Glasoed y gwasanaeth, gan ddarparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ar gyfer staff arbenigol sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio, niwed y tu allan i'r teulu a materion diogelu glasoed cymhleth neu sy'n cael eu heffeithio gan hyn.
Meddu ar gyfrifoldeb rheoli gweithredol am y timau Ymateb Cyflym a Chysylltu Teuluoedd, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau argyfwng tymor byr a phecynnau cymorth 12 wythnos strwythuredig. Mae hyn yn cynnwys darparu goruchwyliaeth fyfyriol, hyrwyddo ymarfer sy'n ystyriol o drawma a pherthnasoedd, a sicrhau bod ymyriadau Haen 3 yn cael eu gweithredu'n gyson
Dirprwyo ar ran y Rheolwr Tîm yn ei absenoldeb, gan gymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal ehangach.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- **Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm:**
    - wrth ddarparu gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal o ddydd i ddydd, gan sicrhau cymorth amserol, sy'n ystyriol o drawma, ac effeithiol i blant, pobl ifanc, a theuluoedd sydd mewn perygl o fynd i ofal.
    - gyda goruchwyliaeth weithredol a datblygu'r gwasanaeth Camfanteisio a'r Glasoed, gan gynnwys rheoli atgyfeiriadau, dyraniadau, a gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol sy'n gysylltiedig â niwed y tu allan i'r teulu a materion diogelu glasoed cymhleth.
    - drwy ddarparu goruchwyliaeth reolaethol o'r timau Ymateb Cyflym a Chysylltu Teuluoedd, cynorthwyo'r gwaith o ddarparu ymatebion argyfwng tymor byr ac ymyriadau 12 wythnos strwythuredig, gan ganolbwyntio ar ymarfer cyson, o ansawdd uchel, sy'n ystyriol o drawma.
    - wrth flaenoriaethu gwaith ar draws y gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal mewn ymateb i anghenion a risgiau sy'n cyflwyno, gan wneud penderfyniadau effeithiol a dyrannu staff ac adnoddau'n effeithiol.
    - drwy ddirprwyo ar gyfer y Rheolwr Tîm pan fo angen, gan gymryd cyfrifoldeb gweithredol llawn am y gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal a

chyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth, sicrhau ansawdd, a rheoli perfformiad.

- Darparu goruchwyliaeth fyfyriol a rheoli llinell i Weithwyr Cymorth Camfanteisio a staff eraill fel y dirprwyir gan y Rheolwr Tîm.
- Goruchwylio a sicrhau ansawdd asesiadau, gwaith uniongyrchol a chynlluniau rheoli risg, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chamfanteisio a diogelu glasoed cymhleth.
- Cynorthwyo'r gwaith o ymgorffori modelau ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys diogelu cyd-destunol, dulliau sy'n ystyriol o drawma, a Chyfweld Ysgogiadol.
- Arwain a chydlynu cynllunio amlasiantaethol ar gyfer pobl ifanc sy'n profi camfanteisio a niwed y tu allan i'r teulu neu sydd mewn perygl o hyn, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd strategaeth, sesiynau mapio, a rhwydweithiau proffesiynol fel y bo'n briodol.
- Cyfrannu at ddadansoddi data perfformiad gwasanaeth a gweithgarwch sicrhau ansawdd, gan nodi patrymau, gwersi, a meysydd i'w gwella i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion strategol a gweithredol.
- Cefnogi'r gwaith o recriwtio, sefydlu, a datblygiad proffesiynol parhaus staff, gan sicrhau bod dysgu ac ymarfer myfyriol yn cael eu hymgorffori wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau yn barhaus, adolygu polisi a gweithdrefnau, a gweithredu modelau gwasanaeth newydd neu ddulliau ymarfer mewn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Dirprwy Reolwr Tîm Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysg hyd at lefel gradd mewn maes perthnasol (e.e. Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfiawnder Ieuenctid, Seicoleg, Addysg, Ymarfer Therapiwtig).<br>• Meddu ar gymhwyster proffesiynol perthnasol (e.e. Gwaith Ieuenctid, Cwnsela, Prawf, Addysg, Iechyd, neu gyfwerth).<br>• Parodrwydd i gwblhau cymhwyster rheoli neu arweinyddiaeth.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus wrth ddiogelu'r glasoed, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, neu ddulliau therapiwtig. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad sylweddol o weithio gyda'r glasoed a theuluoedd sy'n profi materion cymhleth a risg uchel, gan gynnwys camfanteisio, niwed y tu allan i'r teulu, ac ansefydlogrwydd lleoliad.<br>• Profiad o gyflwyno neu oruchwylio ymyriadau sy'n ystyriol o drawma a therapiwtig gyda'r nod o reoleiddio emosiynol, ymlyniad, gwydnwch, neu atgyweirio perthnasoedd.<br>• Dealltwriaeth o fodelau therapiwtig fel CBT, DDP, gwaith sy'n canolbwyntio ar emosiynau, neu fframweithiau eraill sy'n ystyriol o dystiolaeth sy'n berthnasol i risg ac adfer y glasoed.<br>• Profiad o gefnogi staff i gyflwyno neu ymgorffori dulliau therapiwtig yn eu gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc a theuluoedd. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Profiad o weithio mewn timau amlasiantaethol neu ochr yn ochr â nhw i gydlynu ymyriad ar gyfer plant mewn argyfwng neu sydd mewn perygl o fynd i ofal.<br>• Profiad o gyfrannu at ffurfio seicolegol, ymarfer myfyriol, neu asesiad risg cymhleth gyda mewnbwn clinigol neu arbenigol.<br>• Yn gyfarwydd â deddfwriaeth diogelu, cynllunio gofal a chymorth, ac egwyddorion diogelu cyd-destunol. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ymgymryd â rôl arweiniol mewn perthynas â staff a darparu gwasanaethau.<br>• Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol<br>• Gallu dangos sgiliau trefnu da.<br>• Sgiliau TG da<br>• Gallu meddwl yn glir o dan bwysau.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Gallu gweithredu gwybodaeth ymarferol am bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant.<br>• Gallu cynnig arweiniad a chyngor proffesiynol i staff<br>• Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel.<br>• Ymrwymiad i weithio mewn amgylchedd heriol a newidiol.<br>• Yn fedrus wrth ymgysylltu â phobl ifanc a gofalwyr gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a pherthnasoedd.<br>• Gallu hyfforddi, datblygu a chefnogi staff i gyflwyno ymyriadau sy'n ystyriol o drawma. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu dadansoddi a dehongli'r wybodaeth a gesglir.<br>• Gallu asesu risg a chynllunio'n briodol.<br>• Gwerthfawrogi pwysigrwydd rheoli ariannol, cadw cofnodion, cywirdeb a rheoleidd-dra.<br>• Gallu nodi ymyriadau priodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar ddadansoddiad o angen.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |